**Dyddiad:** **Dydd Mercher 25 Mehefin 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid –**

**Adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cyntaf**

## Diben

Bydd y Pwyllgor yn trafod y casgliadau a'r argymhellion sy'n ymwneud â iechyd a gofal cymdeithasol yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar yr adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn Crwydrol. [insert hyperlink to report] Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei rôl yn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Gallai hyn olygu rhagor o waith wrth roi cyngor i'r Gweinidog ar ddatblygu polisi, enwi a rhannu arferion da a/neu adolygu hynt y broses o roi'r argymhellion ar waith ar ôl blwyddyn neu ddwy.

## Y Cefndir

Gosodwyd yr Adroddiad gerbron y Cynulliad ar 2 Ebrill, ond nid yw eto wedi'i ddadlau gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn, ac nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion ychwaith.

Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd "...adolygu’r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru, gyda golwg yn benodol ar:

- addysg, iechyd, llety, cyflogaeth, a swyddogaeth awdurdodau lleol;
- a ddylai fod gan y Cynulliad bolisïau penodol ar gyfer Sipsiwn Crwydrol mewn perthynas ag addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol, tai, iechyd, yr amgylchedd, cynllunio a chydraddoldeb; ac
- a oes digon o wybodaeth ystadegol ar gael i hwyluso’r gwaith o gynllunio’r gwasanaeth."

Yr adrannau yn yr adroddiad sy'n ymhél materion iechyd a gofal cymdeithasol yw:

**Pennod 9** - Cyfraniad Sipsiwn a Chrwydriaid i'r Broses o Wneud Penderfyniadau a Datblygu Polisi

**Pennod 11** - Iechyd

**Pennod 13** - Materion Trawsbynciol

**Argymhellion yr Adroddiad**

Yr argymhellion perthnasol yw rhai 5, 6, 21 i 31, 49 a 50. Nodwyd hwy yn Atodiad E i'r adroddiad, ynghyd â chynllun cyflawni arfaethedig. Awgrymir yn Atodiad E y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrannu at y gwaith o fwrw ati â thri argymhelliad:

> Argymhelliad 23 - *"...y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu dulliau i annog Meddygon Teulu a deintyddion i gofrestru Sipsiwn a Chrwydriaid fel cleifion, er enghraifft cymhellion i gofrestru, targedau penodol ar gyfer cofrestru Sipsiwn a Chrwydriaid."*
>
> Mae'r cynllun cyflawni yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adrodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod yr hydref ar y mecanweithiau y gellid eu datblygu i'r perwyl hwn.
>
> Argymhelliad 25 - *"...y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau dilyniant o ofal pan fo gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol yn darparu gwasanaethau. Dylid darparu adnoddau a chyllid digonol i ddarpariaeth arbenigol a'i gysylltu'n gadarn â darpariaeth prif ffrwd - i sicrhau bod yna fynediad i arbenigedd ehangach, staff cyflenwi yn ystod absenoldebau anochel ac i leihau natur ynysig staff arbenigol. Dylid darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i staff arbenigol."*
>
> Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried yn ystod tymor yr hydref sut y gellid rhoi gwell cymorth i staff arbenigol.
>
> Argymhelliad 30 - *"...datblygu rhaglenni penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd penodol yng nghymuned y Sipsiwn Crwydrol. (Er enghraifft nid yw cyflyrau parhaol fel diabetes a chlefyd y galon yn cael eu diagnosio a'u trin i'r un graddau ag sy'n digwydd yn y gymuned sefydlog)."*
>
> Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, erbyn diwedd 2003, enwi meysydd sydd angen blaenoriaeth er mwyn taregdu rhaglenni penodol atynt. Argymhellir y dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, Sipsiwn a Chrwydriaid a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd gan y broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid oblygiadau i'r gyllideb. Wrth ystyried y rhain, a'r argymhellion eraill a geir yn yr adroddiad, bydd y Pwyllgor yn dymuno cadw golwg ar y ffaith y bydd yn trafod blaenoriaethau'r Gweinidog o ran cyllideb 2004 i 2005 a thu hwnt yn ei gyfarfod nesaf.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Mehefin 2003